



**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR
YSGOL Y WERN 2024 - 2025**

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Mae'n bleser mawr ysgrifennu atoch eleni ar ran Corff Llywodraethu Ysgol y Wern, yn dilyn blwyddyn brysur a llwyddiannus arall dan arweiniad ein Pennaeth Dros Dro, Mrs Nia Jones.

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r adroddiad hwn, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o weithgareddau a phrofiadau a gafwyd dros y flwyddyn ddiwethaf ac sy'n tystio i weledigaeth, ymrwymiad ac ysbryd cydweithredol tîm cyfan Ysgol y Wern. Fel Corff Llywodraethu, rydym wedi'n hysbrydoli gan y cyfleoedd niferus a gynigiwyd i'n disgyblion ac hoffem ddiolch i bawb yn y gymuned ysgol am eu hymroddiad, eu gwaith caled a'u brwdfrydedd parhaus.

Bu sawl achlysur dros y flwyddyn a'n llenwodd â balchder. Roedd Cyngerdd y Nadolig, llwyddiannau yn yr Urdd Eisteddfod a chyflawniadau chwaraeon i gyd yn achlysuron calonogol a arddangosodd dalentau amrywiol ein disgyblion. Mae'r llwyddiannau hyn yn tanlinellu nid yn unig eu gallu, ond hefyd eu gwydnwch, eu penderfyniad a'u cryfder cymeriad.

Ni fyddai hyn i gyd yn bosibl heb ymroddiad, gofal ac arweinyddiaeth staff Ysgol y Wern. Hoffem eu canmol unwaith eto am eu gwaith rhagorol a'r gefnogaeth a roddwyd i Mrs Jones drwy gydol y flwyddyn. Hoffem hefyd ddiolch yn ddiffuant i'r wynebau cyfarwydd hynny sydd wedi chwarae rhan mor bwysig wrth lunio cynhesrwydd a chymeriad yr ysgol, ac sydd wedi symud ymlaen i rolau newydd ar ddiwedd y tymor haf.

Fel Corff Llywodraethu, rydym yn cael ein calonogi gan y gwelliannau parhaus i'r cyfleusterau ar draws y safle, ac roeddem yn falch o weld buddsoddiad pellach mewn adnoddau mewn sawl adran. Hoffem hefyd estyn diolch arbennig i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol. Mae eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf wedi codi symiau ardderchog i'r ysgol, ac mae eu cefnogaeth barhaus yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr. Diolch yn fawr iawn.

Mae ein hymweliadau â'r ysgol drwy gydol y flwyddyn wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i gael mewnwelediad i'r profiadau dysgu cyfoethog ac amrywiol a gynigir ar draws y cwricwlwm. Uchafbwynt penodol fu'r cyfle i dreulio amser yn

siarad â'r disgyblion eu hunain, sydd i'w canmol am eu hegri, eu brwdfrydedd a'u hyder wrth rannu eu profiadau o fywyd cymunedol yn Ysgol y Wern.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod, hoffai'r Corff Llywodraethu gofnodi ein diolch diffuant i Mrs Nia Jones am gamu i rôl y Pennaeth Dros Dro, swydd a gyflawnodd gyda ymrwymiad a balchder. Edrychwn yn awr ymlaen at groesawu Mr Aled ap Iwan ac at ddechrau pennod newydd gyffrous yn hanes Ysgol y Wern.

Gyda Diolch,

Hannah Fernandez

Cadeirydd

Dymuniadau gorau

Hannah Fernandez, Cadeirydd y Llywodraethwyr

TYMOR YR HYDREF 2024

- 86 yn y Dosbarth Meithrin
- 68 wedi'u derbyn i dri dosbarth derbyn
- 90 Blwyddyn 1
- 70 Blwyddyn 2
- 89 Blwyddyn 3
- 91 Blwyddyn 4
- 86 Blwyddyn 5
- 85 Blwyddyn 6

Cyfanswm Disgyblion: Derbyn - Blwyddyn 6: 579

Meithrin

62

Cyfanswm: **665**

Roedd 665 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 gyda'r Pennaeth Dros Dro, y Dirprwy Benaethiaid a 19 o athrawon llawn-amser a 8 o athrawon rhan-amser, ochr yn ochr â'r athro Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan yr ysgol dîm effeithiol o Gynorthwywyr sy'n helpu yn yr Adran Dysgu Sylfaen ac yn cefnogi disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r tîm ategol yn cynnwys bwrsar cyllid llawn amser a dwy ysgrifenyddes rhan amser, gofawr, goruchwylwyr amser cinio a staff y gegin.

Staffio

Mrs Nis Jones yn Bennaeth Dros Dro am y flwyddyn Academaidd 24-25 wrth i'r broses o benodi Pennaeth parhaol yn parhau. Penodwyd Mr Aled ap Iwan fel Pennaeth newydd yr Ysgol i ddechrau yn Mis Medi 2025.

Penodiadau addysgu: Penodwyd un athro newydd gymhwys: Miss Katie Rees Ffarwelwyd â Miss Abbie Phillips ar ddiwedd y flwyddyn.

Corff Llywodraethu

Enw	Math
Hannah Fernandez-Arias (Cadeirydd)	AALI
Nicholas Brown (D. Gadeirydd)	Rh
Nia Jones	PDD
Mike Landers	AALI
Cecil James	CYM
Rhys Evans	CYM
John Rawnsley	CYM
Nia Jones	CA
Helen Walker	CA
Angharad Naylor	Rh
Margaret Kemp	AALI
Nia Griffiths	Rh
Maxine Chichester	Rh
Lowri Powell	Rh
Bethan Proctor	AALI
Hannah Carlson	CLC

AALI: Awdurdod Addysg Lleol

PDD: Pennaeth Dros Dro

CYM: Cymuned

Rh: Rhiant

CA: Cynrychiolwyr Athrawon

SNA: Staff nad ydynt yn Addysgu

CLC: Clerc

Clerc y Corff Llywodraethu

Trefniadau etholiad nesaf y Corff Llywodraethol- Fe fydd yr Awdurdod Addysg a'r Ysgol yn hysbysu rhieni/ofalwyr am drefniadau unrhyw gyfleoedd i fod yn rhan o'r Corff Llywodraethol a threfniadau etholiadau.

Cynllun Gwella Ysgol 2024 - 2025 wedi'i adolygu a'i gytuno:

- 1. Sicrhau fod plant yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu. Defnyddio strategaethau 'Talk for Writing' i godi safonau ysgrifennu.**
- 2. Creu dealltwriaeth gytun o sut mae 'dysgu annibynnol' yn edrych i gymuned dysgu'r ysgol.**

3. Myfyrio ar ein hymarfer ac amgylchedd ddysgu drwy lens amrywiaeth, gwrth hiliaeth a chynefin gan sicrhau ehangder yn ein cwricwlwm.
4. Datblygu ymagwedd ysgol gyfan at les er mwyn sicrhau mynediad lawn i'r cwricwlwm i bob dysgwr
5. Parhau i ddatblygu rolau arweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol.

Diwrnodau Hyfforddiant HMS 24-25

2/9/24- Cwricwlwm i Gymru a Trefniadau Diogelu

25/9/24- Ysgolion Clwstwr Glantaf- gweithdai ADY

25/11/24-Addysgu ac Annibyniaeth- Hyfforddiant gan arweinwr CSC

6/1/25 Gweithdy 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' ac Chaerdydd fel dinas Amlddiwylliannol

21/2/25 - Cynllun Gwella Ysgol

21/7/25- Hwyrnosau Fforymau Blwyddyn

Diogelu

- Staff wedi bod ar hyfforddiant diogelu
- Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yr ysgol oedd y Pennaeth Dros Dro Mrs Nia Jones gyda Elen Reader a Mrs Helen Walker yn Ddirprwyon UBD.
- Yr ysgol wedi cynllunio gweithgareddau ar gyfer Wythnos Gwrth-fwllo
- Ymweliadau rheolaidd gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch

HMS - Cafodd manylion llawn am gyrsiau a fynychwyd gan staff rhwng Medi 2024 - Gorffennaf 2025 eu cyflwyno mewn cyfarfodydd Cyrff Llywodraethu.

Dyddiadau'r Tymor 2024-2025

	Tymor yn Dechrau	Hanner Tymor Dechrau	Hanner Tymor Gorffen	Tymor yn Gorffen
Hydref	02/09/24	28/10/24	01/11/24	20/12/24
Gwanwyn	06/01/25	24/02/25	28/02/25	11/04/25
Hâf	28/04/25	26/05/25	30/05/25	21/07/25

Addysgu a Dysgu

Cyflwynwyd sawl agwedd o'r Cynllun Gwella Ysgol i'r Corff Llywodraethol yn ystod y flwyddyn gan staff yr ysgol.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb. Mae'r Corff Llywodraethol, y Pennaeth, staff a disgyblion yn credu'n gryf mewn hyrwyddo'r cysyniad o gyfle

cyfartal i bob unigolyn. Mae pob math o ragfarn a gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol, anableded neu oedran yn cael eu gwrthwynebu.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ysgol yn dilyn y Ddeddf ADY ac yn deall fod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion pob dysgwr ac yn cefnogi addysg gynhwysol. Mrs Elin Kate Confrey yw'r Cydlynnydd ADY. Mae'r Cydlynnydd ADY yn nodi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol ac yn cynllunio a chynghori aelodau eraill o'r staff ar ba ymyraethau sydd eu hangen. Gwneir hyn yn ystod trafodaethau cynnydd gyda'r athro wrth drafod os yw'r dysgwr wedi gwneud cynnydd addas o'i fan cychwyn cychwynnol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol e.e y Seicolegydd Addysg a'r Gwasanaeth Ymgysylltu. Mae Mrs Confrey yn gweithio'n agos gyda rhieni ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni. Mae'r staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant ADY.

Disgyblion Anabl

Mae cyfle cyfartal yn flaenoriaeth

Mae gwella'r wybodaeth a gesglir ynghylch disgyblion anabl, rhieni/gofalwyr anabl, cyflogwyr anabl a defnyddwyr gwasanaeth anabl yn flaenoriaeth

Mae dau doiled i'r rhai anabl a rheiliau llaw i gynorthwyo plant ag anabledau corfforol cymedrig.

Categori Ieithyddol yr Ysgol - ysgol cyfrwng Cymraeg penodol

Defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol

- Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio ar draws yr ysgol fel y brif iaith ym mhob maes gwaith yr ysgol a'r gweithgareddau allgyrsiol.
- Mae disgyblion yn cael cyflwyniad i'r Saesneg ym Mlwyddyn 3.
- Cymraeg yw iaith gyfathrebu naturiol yr ysgol. Mae cyfathrebu rhwng rhieni/gofalwyr a'r ysgol yn ddwyieithog.
- Caiff y Gymraeg ei hyrwyddo ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith Ysgol y Wern.
- Mae'r ysgol yn sicrhau bod parhad a dilyniant drwy gynllunio a datblygiad gofalus o ran defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.
- Gall disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r ysgol fanteisio ar ddarpariaethau'r Ganolfan Drochi Iaith a drefnir gan yr Awdurdod Addysg.
- Mae'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Glantaf lle maen nhw'n parhau â'r addysg Gymraeg. Yn ystod Blwyddyn 6, caiff disgyblion gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau pontio.

Cysylltiadau Cymunedol

- Codwyd £419 ar gyfer gofal cancer Macmillan.
- Codwyd £1263 i Blant Mewn Angen.
- Codwyd £525 tuag at Tafwyl-diwrnod 'dim gwisg ysgol'.
- Codwyd £594 tuag at Ysbyty Felindre yn ystod Gwisgwch Goch i Gymru

- Codwyd £1000 tuag at Achub y Plant
- Codwyd ymwybyddiaeth y plant o Syndrom Down ar Ddiwrnod Syndrom Down y Byd. Y plant wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau '21' yn ystod y diwrnod. Codwyd £505.
- Yn dilyn Cystadleuaeth Batris i ysgolion Caerdydd, fe ddaeth YYW yn drydydd ac enillwyd £50 o dalebau Amazon .
- Yn dilyn ein Gwasanaeth Diolchgarwch cyflwynwyd rhoddion y plant i Fanc Bwyd Caerdydd
- Mwynheuodd Plant Blwyddyn 2 berfformio yng ngŵyl Tafwyl eleni.
- Yn dilyn gwaith y Gweithgor Gwrth Hiliaeth fe luniwyd logo newydd ac fe benderfynwyd i roi'r log0 ar holl grysau chwaraeon yr ysgol - dangos ein bod yn sefyll yn erbyn hiliaeth wrth i'r plant fynd allan i'r gymuned leol ac ehangach
- Cynhaliwyd gwasanaeth gan Carole Morgan o RNIB a'i chi tywys yn son am eu bywyd a sut mae Jason y ci yn ei helpu o ddydd i ddydd.

Cwricwlwm

- Cynhaliwyd nosweithiau cwricwlwm ym mhob blwyddyn ar ddechrau mis Medi
- Pedwar disgybl yn aelodau o Senedd Ysgolion Cymraeg y ddinas.
- Ymweliadau preswyl -Bl 4 (Gwersyll yr Urdd Caerdydd), Bl 5 a Bl 6 Gwersyll yr Urdd Llangrannog
- Gweithdy gydag awdur ym Blwyddyn 6 -Chantelle Moore. Gweithdy am gyfraniad Cenhedlaeth Windrush
- Pwyllgor Iechyd a Lles yn arwain gwasanaeth yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant
- Cydweithio clwstwr yn ystod hwyrnosau ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Yn dilyn cyfarfodydd gan y Gweithgor Gwrth Hiliaeth fe archebwyd offer celf newydd ar gyfer dangos amrywiaeth yn ein dosbarthiadau.
- Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol gyda llysoedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn Neuadd yr ysgol.
- Cymerodd lawer o ddisgyblion ran yng Nghyngerdd Cerddorfa Clwstwr yng Nglantaf
- Blwyddyn 3 yn derbyn gwersi PBuzz fel rhan o ddarpariaeth Gwasanaeth Cerdd y Sir.Pawb wedi perfformio mewn cyngerdd yn yr 'All Nations'.
- Blwyddyn 6 yn derbyn sesiwn Almaeneg wythnosol gan ysgol Glantaf ac mae Blwyddyn 5 yn derbyn sesiynau Ffrangeg.
- Heddwys Ysgolion yn cynnal gweithdai ar ddiogelwch
- Cynhaliwyd Diwrnod y llyfr ble cafodd pawb hwyl yn dathlu darllen gyda nifer o weithgareddau hwyliog wedi eu trefnu.
- Bl 6 wedi cymryd rhan mewn menter- gwerthu bwndeli bwyd adar i rieni
- Yr ysgol wedi cynllunio gweithgareddau ar gyfer Wythnos Gwrth-fwllo gyda'r Cyngor Ysgol/Pwyllgor Lles yn adolygu Polisi Gwrth-fwllo.
- Bl 5 a 6 yn perfformio'r sioe gerdd y Llew Frenin yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
- Perfformiad o The Selfish Giant gan y cwmni Theatr mewn Addysg 'Image Theatre'

- Fe ddaeth aelodau o Cadw Cymru'n Daclus i'r ysgol i asesu yr ysgol am adnewyddu y faner platinwm- bu'r Pwyllgor Eco yn cyflwyno eu llwyddiannau iddynt ac fe adnewyddiwyd y faner unwwaith eto.
- Pwyllgor Eco yn cynnal gwasanaethau ar arbed ynni ac yn dechrau ymgyrch arbed ar gyfer pob dosbarth i ennill tlws Bobi Bwlb allan o Lego.
- Cyn ddisgybl Rose Datta(enillydd Llais) yn ysbrydoli plant drwy gynnal sesiwn holi ac ateb
- Tim Bl 4 yn ennill cystadleuaeth y Sir yr Ornest Lyfrau ac yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol yn Aberystwyth.
- Tim Pêl-droed Blwyddyn 6 yn cyrraedd Gwyl Genedlaethol Chwaraeon yr Urdd yn Aberystwyth yn dilyn eu llwyddiant yn y Sir.
- Tîm Rygbi Tag Cymysg Blwyddyn 4 yn cael eu coroni'n Bencampwyr Cenedlaethol yn Aberystwyth.
- Nifer o blant wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Cyfansoddwraig o Fl 5 wedi dod i'r brig yn y Gystadleuaeth Cyfansoddi Blwyddyn 6 ac iau.
- RNLI yn cynnal gweithdy gyda Bl 5 a 6.
- Ymgyrch Headway Caerdydd- Mrs Sowden -Taylor yn cynnal gweithdy gyda Bl 4 am bwysigrwydd gwisgo helmedau. Ein harweinwyr digidol wedi derbyn achrediad gan HWB a Llywodraeth Cymru am eu gwaith yn creu adnoddau ar gyfer Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel
- Ymweliad Robin Sowden-Taylor i Flwyddyn 4 i drafod pwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff.
- Prosiect Coetir Bach-gweithdai plannu coed gyda Trees for Cities
- Diwrnod Hawliau Plant-Gwnaeth Bl 4,5 a 6 gymryd rhan yng ngwasnaeth e-sgol i ddathlu diwrnod Hawliau Plant yng nghwmni Comisynydd Plant Cymru, Rocío Cifuentes
- Dau ddisgybl yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth i ddylunio logo i Glwb Eco Llanisien.
- Dathlu'r Hen Galan yng nghwmni'r Fari Lwyd.
- Lawnsiwyd anthem yr ysgol ar Ddydd Miwsig Cymru- wedi ei chyfansoddi gan blant Blwyddyn 6.
- Côr yr Ysgol yn canu yn yr Ysbyty Athrofaol cyn y Nadolig
- Yr Ynadon yn cynnal gweithdai ym Mlwyddyn 6.
- Llysgenhadon Cymraeg yn cydweithio gyda Chriw Campus Ysgol Birchgrove yn y gymuned.
- Eric Ngalle, aelod o adran lenyddiaeth,Coleg Kings yn tanio dychymyg ein plant gyda'i straeon pwerus mewn gweithdy ym Mlwyddyn 5.
- Mrs Sabbah yn cynnal sesiwn ddiddorol ar Ramadan ac Eid ul- Fitr i blant Blwyddyn 2
- Chwaraeon Anabledd Cymru yn cynnal sesiwn ymarfer corff gyda Bl 5
- Tîm rygbi 10 bob ochr yn cystadlu yn Rownd Genedlaethol Ysgolion Cymru yn Llanymddyfri. Wedi cyrraedd rownd derfynol y Plât-yn gorffen fel un o'r ugain ysgol orau yng Nghymru.
- Yr ysgol wedi cymryd rhan mewn nifer o gystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd- parti llefaru,parti unsain, côr, cân actol, dawnsio gwerin, dawnsio disgo, ensemble offerynnol, cerddorfa.Y plant a'r athrawon wedi bod yn brysur iawn yn paratoi.Dyma'r cystadlaethau fydd yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol-pawb yn cystadlu ar y Dydd Llun
- Eila Loader- Unawd a Llefaru Bl 2
- Faith Manville-Parry-Unawd Telyn a Piano

- Ensemble a'r Gerddorfa
- Gweithdy Un Blaned ym Mlwyddyn 6- archwilio achos ac effaith newid hinsawdd

Iechyd a Diogelwch

- Swyddog Iechyd a Diogelwch yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.
- Dril tân a Dril Cloi lawr wedi'i gynnal
- Y mae yswiriant yr Ysgol yn caniatáu disgybl i fod yn yr Ysgol o 8.40 a.m ymlaen (Clwb Brecwast 8.20a.m- 8.40 a.m) Yn y prynhawn bydd y Meithrin yn gadael am 3 p.m a gweddill yr ysgol am 3.20p.m. Mae disgwyl i rieni/ofalwyr nodi eu presenoldeb ar safle'r ysgol drwy gysylltu gyda'r Swyddfa ger y prif fynedfa. Rhaid parcio'n ofalus o gwmpas yr ysgol ac ni rhoddir caniatad i gerbyd barcio ar safle'r ysgol i ollwng neu godi fyny eu plant ar ddechrau/diwedd dydd . Rhaid osgoi parcio mewn mannau parcio anabl/gwair . Gan fod nifer o gerddwyr yn cyrraedd yr Ysgol gofynnwn i rieni/gofalwyr(os oes rhaid defnyddio car) i barcio ymhellach o'r safle ac yna cerdded i fewn. Ni ddylid defnyddio Llangrannog Place o gwbl. Rydym yn annog rhieni hefyd i ddefnyddio Rhodfa Templeton gan wneud yr un peth, sef parcio yn bellach ac yna cerdded. Gofynnwn hyn er mwyn diogelwch pawb.
- Diogelir y drysau allanol drwy ddefnyddio ffob arbennig. Rhaid i bob ymwelydd fynd i swyddfa'r Ysgol yn gyntaf i arwyddo mewn a derbyn bathodyn ymwelydd.
- Ni chafwyd yr un achos o dorri i mewn i'r Ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd yma.

Polisiau a Strategaethau

Mae'r Ysgol yn adolygu polisiau yn gyson er mwyn sicrhau y ddarpariaeth orau ar gyfer y dysgwyr. Yn ystod 2024-25 adolygwyd y rhai sy'n ymwneud ag Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant a rhai agweddau cwricwlaidd. Ceir copïau o'r polisiau yn yr ysgol neu ar y wefan.

Trefniadau a Chyfleusterau Toiled

Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o doiledau i'r disgyblion sydd wedi cofrestru yn yr ysgol. Mae'r cyfleusterau'n cael eu glanhau bob dydd gan Wasanaeth Glanhau yr Awdurdod Addysg.

Prydau Ysgol am Ddim

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd pob dosbarth yn cael cynnig cinio ysgol am ddim. Dewis y rhieni yw derbyn y cynnig neu darparu pecyn bwyd eu hunain.

Chwaraeon a Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ym mhob agwedd ar Addysg Gorfforol. Rhoddir cyfle i'r disgyblion ddatblygu elfen gystadleuol wrth gystadlu mewn amryw o gystadlaethau drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r ysgol hefyd yn sicrhau ei bod yn cymryd bob cyfle i gystadlu ym mhob digwyddiad chwaraeon a drefnir gan yr Urdd. Profodd ein Tîm Cymysg TAG Rygbi cryn lwyddiant eleni wrth gyrraedd y rownd chwarteri yng Nghystadleuaeth Genedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gemau cyfeillgar er mwyn rhoi profiadau pellach i'n disgyblion ni o gystadlu ar y maes chwarae. Derbyniodd Bl 6 wersi seiclo gan y Sir .Dechreuwyd clwb seiclo fel gweithgaredd allgyrsiol ychwanegol.

Fel rhan o'r cwricwlwm addysg gorfforol cafodd Blwyddyn 4 wersi nofio. Hyfryd oedd gweld gymaint o ddisgyblion yr Ysgol yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Diolch i'r staff am hyfforddi ac i'r holl blant a fu'n cystadlu.

Bwyta ac Yfed yn Iach

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac mae'n awyddus i fabwysiadu patrymau bwyta'n iach ledled yr ysgol gyfan. Anogir disgyblion i fwyta byrbrydau iach yn ystod amser egwyl yn unig. Ni chaniateir cnau yn yr ysgol oherwydd alergeddau difrifol. Mae disgyblion y Meithrin i Flwyddyn 2 yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Anogir pob disgybl i ddod â photel ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd i yfed dŵr.

Newidiadau i Brospectws yr Ysgol

Caiff y prospectws ei ddiwygio a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Mae copi o'r prospectws ar gael yn swyddfa'r ysgol.

Disgyblion a Waharddwyd

Dim gwaharddiadau

Pontio

Mae disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6 yn trosglwyddo fel arfer i Ysgol Glantaf. Mae gan yr Ysgol bartneriaeth dda iawn gyda'r ysgol uwchradd ac yn gweithredu cynlluniau pontio effeithiol.

Cyllideb yr Ysgol

Cymeradwyodd y Corff Llywodraethu Gyllideb yr Ysgol

Cafodd cyllideb yr ysgol ei defnyddio i sicrhau'r profiadau addysgol gorau posibl i ddisgyblion ac i sicrhau adnoddau priodol ar eu cyfer. Mae'r drefn bresennol yn ein galluogi i gadw grwpiau blwyddyn un oedran gyda'r cyllid sydd ar gael.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Hoffai'r Corff Llywodraethu nodi'n ffurfiol ei fod yn gwerthfawrogi holl waith y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae'r arian o godir yn rhoi cefnogaeth amhrisiadwy i'r dysgu ac addysgu yn Ysgol Y Wern. Mae adroddiad llawn o'r gweithgareddau a'r arian a godwyd ar gael gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Presenoldeb 2024/25

Presenoldeb - 96.7%

Absenoldeb awdurdodedig- 3.1%

Absenoldeb anawdurdodedig-0.2%

Cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Ysgol ar ôl Arolygiad

Mae'r ysgol wedi cwrdd ag argymellion Adroddiad Estyn 2018.

Cofiwch gysylltu gyda'r Pennaeth os ydych am wybodaeth bellach am ddatblygiad yr ysgol.

Diolch i chi eto fel rhieni/ofalwyr am eich ymrwymiad i'r ysgol;mae eich cefnogaeth yn rhan bwysig o ddatblygiad addysgol a chymdeithasol eich plant ac i ddiwylliant unigryw Ysgol y Wern.